Gwella Cartrefi, Newid Bywydau.

Care & Repair Cymru

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Care & Repair Cymru



# EIN GWELEDIGAETH

**Cymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartref cynnes, diogel a chyfleus.**

## Pwy yw Gofal a Thrwsio?

Mae Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn cynnwys Care & Repair Cymru a 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio. Gan weithio ym mhob cornel o Gymru, mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaethau wyneb i wyneb gyda phobl hŷn. Mae Care & Repair Cymru yn gweithredu fel y corff cenedlaethol sy'n darparu arbenigedd, eiriolaeth ac adnoddau.

## Pwy yw Care & Repair Cymru?

Care & Repair Cymru yw llais cenedlaethol y mudiad Gofal a Thrwsio, ac mae ganddo dair prif nod:


1. **Cynrychioli a chefnogi Asiantaethau Gofal a Thrwsio.** Rydym yn arwain y mudiad, yn cynnwys rheoli'r brand dibynadwy, cefnogi llywodraethant da, arloesi gwasanaeth, ansawdd a chysondeb yn ogystal â rhannu arfer gorau.
2. **Ceisio cynyddu buddsoddiad i wella tai pobl hŷn.** Rydym yn gweithio'n barhaus i geisio denu cyllid ar gyfer y mudiad cyfan. Drwy gasglu data, ymchwil a gwerthuso, gweithiwn i sicrhau cynnydd mewn buddsoddiad mewn tai pobl hŷn gan gyllidwyr statudol ac elusennol.
3. **Hyrwyddo anghenion tai pobl hŷn.** Rydym yn hyrwyddo ac yn mynegi anghenion tai pobl hŷn, gan ddefnyddio ein tystiolaeth ein hunain a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddylanwadu ar wella polisi'r llywodraeth.



# CYNNWYS


Cyflwyniad gan ein Prif Weithredwr a Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr 3
Ein Blwyddyn mewn Rhifau 5
Cwrdd ag Anthony 6
Amserlen Effaith 7
Ein Hadroddiadau 9
Polisi ac Eiriolaeth 12
Gweithio gydag Asiantaethau 13
Ein Prosiectau
- 70+ Cymru 15
- Ysbyty i Gartref Iachach 17
- Ymdopi'n Well 19
Ein Tîm Staff 21
Ein Gwerthoedd Tîm 23
Ein Bwrdd Ymddiriedolwyr 24
Adolygiad Ariannol 25
Diolchiadau 27


## Codau QR



**Mae Codau QR i'w gweld ym mhob rhan o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Mae pob un yn cysylltu gyda rhywbeth penodol, tebyg i fideo, ffotograffau neu fwy o wybodaeth.**

I ddefnyddio cod QR agorwch yr ap camera ar eich ffôn. Daliwch eich ffôn fel y gallwch weld y cod QR. Tapiwch yr hysbysiad i agor y ddolen yn gysylltiedig gyda'r cod QR.

Mae'r holl fideos a dolenni ychwanegol hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.careandrepair.org.uk/EinBlwyddyn

# CYFLWYNIAD

## GAN EIN PRIF WEITHREDWR A CHADEIRYDD YR YMDDIRIEDOLWYR

**Mae mwy o alw nag erioed am wasanaethau Gofal a Thrwsio, ac mae cymhlethdod angen a'r ystod problemau hefyd wedi cynyddu.**

Yn ystod y pandemig, ni sylwyd ar y gwaethygiad mewn cyflwr tai ac ni wnaed dim amdano. Yn dilyn Covid, mae hyn wedi arwain at fwy o alw yn ogystal â nifer uwch o fuddiolwyr gydag anghenion mwy cymhleth. Mae atgyfeiriadau i Gofal a Thrwsio gan awdurdodau lleol hefyd wedi cynyddu wrth iddynt weithio drwy ôl-groniad y pandemig. Bu cynnydd enfawr mewn costau ynni a chwyddiant, ac mae'r argyfwng mewn costau byw wedi taro'n galed ar ein buddiolwyr, gan ychwanegu at y cynnydd yn y galw.

Cynyddodd nifer y bobl y gwnaethom eu helpu o 57,000 yn 2021-22 i 62,500 yn 2022-23. Bu cynnydd o 8% i 17,000 hefyd yn nifer ein hymweliadau cartref a chynyddodd gwerth gwaith gwella ac addasu cartref a gwblhawyd gennym gan £4m i £18.3m. Cynyddodd gwerth y budd-daliadau y gwnaethom eu sicrhau ar gyfer ein buddiolwyr gan £1m i £9.5m o'r flwyddyn flaenorol. Mae cymhlethdodau anghenion a maint y galw yn uwch nag erioed, a disgwyliwn i'r tueddiad hwn dyfu ymhellach yn y flwyddyn i ddod. Mae hyn oherwydd cynnydd mewn costau ynni, chwyddiant a llawer o dimau tai a gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn recriwtio mwy o staff i fynd i'r afael ag ôl-groniadau Covid, gan arwain at fwy o atgyfeiriadau at Gofal a Thrwsio.

### Codi Llais dros Bobl Hŷn

Fe wnaethom weithio'n galed yn 2022-23 i gynrychioli llais pobl hŷn a gweithredu fel y llais cenedlaethol dros ein 23 Asiantaeth Gofal a Thrwsio i ddylanwadu ar wella polisi Llywodraeth Cymru a chynyddu cyllid yn genedlaethol ac yn lleol i gefnogi anghenion ein buddiolwyr. Roedd cyhoeddi ein hadroddiad tai pwysig Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru yn arwyddocaol. Gallwch ddarllen mwy am hyn ar dudalen 9.

Roeddem yn falch i gyflwyno'r achos yn llwyddiannus dros flwyddyn arall o gyllid gan bump Bwrdd Iechyd Lleol i barhau ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach. Mae gan y gwasanaeth 13 gweithiwr achos yn gweithio gyda thimau rhyddhau o ysbyty mewn 17 ysbyty ar draws Cymru i alluogi pobl i fynd gartref yn ddiogel yn gyflymach i'w cartrefi eu hunain.

Gwnaethom achos llwyddiannus am £535,000 ychwanegol o gyfalaf ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys, gan gefnogi darparu mwy o addasiadau bach a gwelliannau hanfodol i gartrefi drwy gyfnod y gaeaf, gan helpu atal pobl rhag syrthio, gostwng y nifer y bu'n rhaid iddynt fynd i ysbyty a chyflymu rhyddhau'n ddiogel o ysbytai. Roeddem hefyd yn falch i wneud yr achos yn llwyddiannus dros gynnydd grant o 6% ar gyfer Gofal a Thrwsio yn 2023-24.

Roedd datblygu cronfa ddata newydd i wella ein galluoedd adrodd yn ogystal â chyflwyno system symlach ar gyfer rheoli taith y cleient yn benderfyniad pwysig, a wnaed ar y cyd ar draws y sector Gofal a Thrwsio. Bydd hyn yn rhoi hyd yn oed fwy o wybodaeth a thystiolaeth dros gefnogi anghenion tai pobl hŷn. Fe wnaethom recriwtio Rheolwr Prosiect Cronfa Ddata newydd ar gyfer hyn yn Ionawr 2023 a gwneud cynnydd sydyn tuag at ddylunio a chaffael cronfa ddata newydd erbyn diwedd y flwyddyn.

### Newidiadau Staff


Gan droi at dîm Care & Repair Cymru (CRC) gyda deuddeg o staff, roedd y gyfradd trosiant yn gymharol uchel yn 2022-23. Gadawodd tri o'r tîm ac fe wnaeth y tri aelod newydd o staff integreiddio'n dda i'r tîm. Gydag un aelod Bwrdd etholedig yn ymddiswyddo, a dwy flynedd o wasanaeth un cynrychiolydd Cadeiryddion Asiantaethau yn dod i ben, bu dau le gwag ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2022. Mae cynlluniau ar hyn o bryd i hysbysebu a recriwtio i swyddi etholedig a phenodi Aelodau Bwrdd cyn gynted ag sy'n bosibl. Gallwch weld ein holl dîm ar dudalennau 21-22.

Drwyddi draw, bu'n flwyddyn arall heriol ond llwyddiannus. Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, hoffem ddiolch i bawb fu'n ymwneud â'n gwaith yn ystod 2022-23. Rydym yn ddiolchgar i Asiantaethau Gofal a Thrwsio, Llywodraeth Cymru, partneriaid cenedlaethol a lleol, partneriaid trydydd sector a'n holl gyllidwyr.

Gair terfynol i ddiolch i'n tîm staff gwych am eu gwaith caled, syniadau creadigol ac ymroddiad diwyro i wella cartrefi a bywydau pobl hŷn ar draws Cymru.



**Chris Jones,**
Prif Weithredwr
Care & Repair Cymru



**Saz Willey,**
Cadeirydd
Ymddiriedolwyr

# EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

**62,607**
wedi eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

**£18.3m**
o waith atgyweirio a gwella tai

**65,127**
o swyddi wedi eu cwblhau

**20,438**
o weithiau Rhaglen Addasiadau Cyflym wedi eu cwblhau

**£9.5m**
o fudd-daliadau nas hawliwyd wedi eu sicrhau ar gyfer pobl hŷn

**89%**
yn dweud wrthym fod eu hannibyniaeth a llesiant wedi gwella

**97%**
yn dweud wrthym y byddent yn argymell Gofal a Thrwsio i eraill

**242**
o gleientiaid wedi eu cefnogi drwy ein cronfeydd caledi

**£131,387**
o gronfeydd caledi wedi mynd i waith ar gyfer cleientiaid

# CWRDD AG ANTHONY

**Sganiwch y cod QR** yma i weld llun 360 gradd o ystafell ymolchi wlyb newydd Anthony.

**Mae Anthony yn 74 ac yn byw gyda'i wraig ger Llandrillo yn Rhos yng Ngogledd Cymru. Yn chwaraewr tennis brwd ar un adeg, mae ganddo osteoarthritis yn awr sy'n effeithio ar ei bengliniau ac o ganlyniad mae'n gweld grisiau yn anodd iawn.**

**Yma mae Anthony yn rhannu ei brofiadau a sut y mae Gofal a Thrwsio wedi ei helpu:**

"Tua naw mlynedd yn ôl roeddwn yn nesu at 28 stôn. Roeddem wedi dioddef colled ofnadwy wrth golli plentyn ac nid oeddem erioed wedi delio gyda hynny'n iawn. Fe wnaethom golli ein swyddi, fe wnaeth rhywun ladrata o'r tŷ, ac mi fuodd raid i ni newid ein bywydau yn llwyr, ac fe wnes i gynyddu fy mhwysau gan nad oeddwn wedi delio hefo'r peth.

"Roeddwn wedi chwarae tennis pan oeddwn yn ifanc felly fe wnes i ail ddechrau chwarae yn lleol ac yn y pen draw mi gollais 11 stôn a hanner. Fe'm gwnaed yn Llysgennad Tennis Cymru dros y gamp. Rwy'n caru tennis ac mae fy ngwraig yn caru tennis - dyma'r peth sydd wedi rhoi ffocws i ni ers y trychineb.

"Erbyn hyn mae fy nau ben-glin yn ddrwg - mae un ychydig yn waeth na'r llall a dyna'r un fydd yn cael triniaeth gyntaf. Hyd hynny mae'n rhaid i mi ymdopi, felly yn sicr roedd yn rhaid i mi wneud addasiadau yn y tŷ. Roedd yn lle diogel unwaith ac roeddwn yn ei gymryd yn ganiataol ond mae wedi mynd yn lle allai fod yn beryglus iawn. Felly, fe gysylltais ag elusen Age Connects a nhw wnaeth argymell fy mod yn cysylltu â Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych.

"Fe wnes i ffonio ac roedden nhw mor barod i helpu a chydymdeimlo. Arweiniodd hynny at rywun yn cael ei anfon allan gan Gofal a Thrwsio. Fe ddaeth o gwmpas y tŷ hefo fi a gwneud asesiad, gan edrych ar yr holl bethau a fyddai o fudd i mi a gwneud y tŷ yn lle diogel.


"Nid oedd rhaid i ni dalu am ddim byd, dyna sy'n rhyfeddol. Fe ddaethant draw a rhoi canllawiau i fyny, fe wnaethant osod ail relen i fyny'r grisiau, a chodi sedd y toiled. Pethau bach ydyn nhw, achos dim ond angen rhywbeth bach sydd, ymyl ychydig yn uwch neu rywbeth, ac fe allwn i syrthio. Os byddaf yn syrthio mae'n anodd iawn i mi godi fy hun.

"Fe wnaethon nhw edrych ar fy ôl i mewn gwirionedd, mewn ffordd nad oedd neb arall wedi gwneud. Rwy'n gwerthfawrogi hynny gymaint. Roedd y bobl a ddaeth draw yn gyfeillgar, fe wnaethant y gwaith yn broffesiynol, a'i wneud yn gyflym iawn hefyd. Maen nhw wirioneddol wedi gwneud fy nghartref yn lle mwy diogel.

"Dim ond pethau bach ydyn nhw ond i bobl sydd â rhai anableddau maen nhw'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y byd. Rwy'n teimlo mor ddiogel yn awr.

"Fe wnaethon ni weld wedyn bod Gofal a Thrwsio yn gosod ystafelloedd gwlyb. Fe wnaethom sôn am bwysigrwydd cael ystafell wlyb ac fe wnaethom gytuno i ariannu'r gwaith ein hunain. Yr amserlen oedd pum niwrnod i gwblhau'r gwaith. Fe wnaethon nhw bopeth yn berffaith. Rwy'n mynd yno yn awr ac mae mor gyfforddus, rwy'n gallu cerdded i mewn ac ymolchi mewn cawod iawn.

"Mae'r llawfeddyg yn dweud na all warantu fy mod yn mynd i fynd yn ôl i chwarae tennis pan fydd hyn wedi ei wneud, ond rwy'n mynd i allu. Hyd yn oed petawn i'n sefyll wrth y rhwyd gyda raced fe fyddaf yn chwarae tennis eto, dyna sy'n fy nghymell ymlaen. Rwy'n meddwl y dylai unrhyw un, dan unrhyw amgylchiadau fynd ati i wneud rhyw gamp, gwneud ffrindiau a rhoi her i chi eich hun."




# AMSERLEN EFFAITH

## Medi 2022
**Wythnos Ymwybyddiaeth o Syrthio**
Ar y cyd gydag Age Cymru, Age Connects a Gofalwyr Cymru, cyrhaeddwyd dros 600,000 o bobl ar y cyfryngau cymdeithasol gyda negeseuon yr ymgyrch Ymwybyddiaeth o Syrthio.

**Sganiwch y cod QR**
**Darllenwch am ymgyrch ymwybyddiaeth o syrthio**

## Hydref 2022
**Sylw ar y Newyddion**
Yn dilyn lansiad ein hadroddiad Ysbyty i Gartref Iachach, gwaith Gofal a Thrwsio oedd y pwt newyddion cyntaf ar y newyddion 6 o'r gloch ar ITV Cymru.

**Sganiwch y cod QR**
**Edrychwch ar yr adroddiad newyddion.**




## Ionawr 2023
**Lansio Adroddiad Tai**
I nodi lansiad ein hadroddiad 'Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru' fe wnaethom gynnal digwyddiad galw heibio yn y Senedd i gwrdd ag Aelodau o'r Senedd a rhannu ein canfyddiadau gyda nhw.






## Tachwedd 2022
**Gwobrau Tai Cymru**
Enillodd gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach Gofal a Thrwsio y wobr Gweithio mewn Partneriaeth, gan drechu mwy nag wyth o enwebiadau eraill. Mae'r wobr yn cydnabod gwaith partneriaeth rhagorol y gwasanaeth gyda'r GIG yng Nghymru.

## Chwefror 2023
**Gwobrau Effeithiolrwydd Ynni Cymru**
Cafodd Care & Repair Cymru ei enwi yn Sefydliad y Flwyddyn Cefnogi Cwsmeriaid Bregus yng Ngwobrau Effeithiolrwydd Ynni Cymru. Roedd y wobr yn cydnabod gwaith ein prosiect 70+ Cymru.



## Mawrth/Ebrill 2023
**Cynadleddau Gwanwyn y Pleidiau Gwleidyddol**
Fe wnaethom fynychu cynadleddau Plaid Cymru, Llafur Cymru a Cheidwadwyr Cymru yn rhoi sylw i waith gwych Asiantaethau Gofal a Thrwsio bob dydd i helpu pobl hŷn i aros yn ddiogel a chynnes yn eu cartrefi.



## Mehefin 2023
**Dadl yn Senedd Cymru**
Ar 28 Mehefin 2023 cynhaliodd Mabon ap Gwynfor AS, Llefarydd Plaid Cymru ar Dai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ddadl fer yn Senedd Cymru yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hadroddiad Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru.

**Sganiwch y cod QR**
**Gallwch weld y ddadl yma.**



## Gorffennaf 2023
**Digwyddiad Pen-blwydd GIG yn 75**
I ddathlu pen-blwydd y GIG yn 75 oed, fe wnaethom ymuno ag Aelodau o'r Senedd a phenaethiaid y GIG yn adeilad y Senedd ar gyfer digwyddiad arbennig. Fe wnaethom rannu rhai o lwyddiannau ein prosiectau Ymdopi'n Well a c Ysbyty i Gartref Iachach.



# EIN HADRODDIADAU



## Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru

Cafodd ein hadroddiad tai pwysig ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023 ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer pobl hŷn ar incwm isel sy'n byw mewn cartrefi heb fod yn ffit.

Gall tai mewn cyflwr gwael yn y sector perchen-feddianwyr yn aml fynd heb eu gweld, heb eu gwirio a chael eu gadael heb eu datrys. Gan ddefnyddio adborth gan Brif Swyddogion, Gweithwyr Achos a Swyddogion Technegol, roeddem eisiau tynnu sylw at yr amodau tai cynyddol wael mae llawer o'n cleientiaid yn byw ynddynt a'r anawsterau sy'n gysylltiedig gyda chwblhau atgyweiriadau tai.




Fe wnaethom ddefnyddio data dienw gan 22,000 o gleientiaid Gofal a Thrwsio dros gyfnod o 18 mis i ddangos yr amrywiaeth eang o gleientiaid a gefnogwn sydd â chartrefi mewn cyflwr gwael. Dangosodd yr adroddiad anghenion cynyddol gymhleth pobl hŷn, anawsterau trefnu gwaith oherwydd prinder contractwyr, cynnydd mewn costau a phroblemau cadwyn gyflenwi, a'r effaith a gaiff hyn ar gleientiaid sy'n byw mewn cartrefi anaddas am hirach.

Cafodd yr adroddiad lawer o sylw gan randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, gydag erthyglau ar wefannau tebyg i rai y Sefydliad Materion Cymreig, y Sefydliad Tai Siartredig ac Age Action Alliance Wales. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r adroddiad mewn grwpiau traws bleidiol ar Heneiddio a Phobl Hŷn, Tai , a Thlodi Tanwydd ac Effeithiolrwydd Ynni.

**Sganiwch y cod QR**

**Darllenwch yr adroddiad llawn.**








## Prosiect 70+ Cymru: Y Gwersi a Ddysgwyd o Drechu Tlodi Tanwydd yng Nghymru

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y llwyddiannau a'r gwersi sylweddol a gafwyd o brosiect 70+ Cymru Care & Repair Cymru, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.

Enillodd y gwasanaeth wobrau a bu'n rhedeg rhwng 2021-2023. Ef oedd yr unig brosiect Cymru-gyfan oedd wedi ymroi'n llwyr i drechu tlodi tanwydd ymysg pobl hŷn yn y sector tai preifat.




Gyda thîm o wyth, cyrhaeddodd Prosiect 70+ Cymru 2,988 o gartrefi gyda chyngor a chefnogaeth yn ystod y 30 mis. Roeddent yn cynnwys bron 1,000 o ymweliadau wyneb yn wyneb i gartrefi. Roedd cyfanswm gwerth y mesurau mawr i arbed ynni a osodwyd a'r buddion ariannol i'n cleientiaid yn £1,127,556.

Mae dod â'r deilliannau a gwersi'r prosiect ynghyd yn yr un adroddiad hwn yn sicrhau y gallant gael eu rhannu gyda'n partneriaid, cyrff trydydd sector ac eraill sy'n gweithio i drechu tlodi.

**Sganiwch y cod QR**

**Darllenwch yr adroddiad llawn.**





# EIN HADRODDIADAU



## Ysbyty i Gartref Iachach: Dair Blynedd yn Ddiweddarach

Ym mis Awst 2022 cyhoeddodd Gofal a Thrwsio werthusiad o'n gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach. Ar ôl tair blynedd, roeddem eisio manteisio ar y cyfle i ganfod os yw'r gwasanaeth yn dal i helpu rhyddhau pobl hŷn yn gyflymach ac yn fwy diogel o'r ysbyty i'w cartrefi eu hunain, a sut y datblygodd y gwasanaeth dros gyfnod.

Ers dechrau yn 2019, mae'r gwasanaeth wedi derbyn nifer cynyddol o atgyfeiriadau bob blwyddyn. Cafodd mwy na 10,000 o gleifion eu rhyddhau o'r ysbyty drwy'r gwasanaeth, gan arbed dros 62,000 o ddyddiau gwely i'r GIG.

Fe wnaethom gyfweld â'n 17 gweithiwr achos i ddeall sut mae eu swyddi wedi addasu, a chyfweld ag amrywiaeth o staff y GIG sy'n atgyfeirio i'r gwasanaeth o bob rhan o Gymru, yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol a chydlynwyr rhyddhau i ddeall pam a sut y defnyddiant y gwasanaeth.


Roedd y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gwerthusiad yn cynnwys gallu'r gwasanaeth i weithredu'n gyflym ac yn ddibynadwy, yn ogystal â sgiliau ein gweithwyr achos i ddatrys problemau. Yng ngeiriau un gweithiwr cymdeithasol – "eu hagwedd gallu gwneud, dylid ei roi mewn potel i'w ddosbarthu!"



**Sganiwch y cod QR**

**Darllenwch yr adroddiad llawn.**






# POLISI AC EIRIOLAETH

**Ehangodd Gofal a Thrwsio ehangu ei dîm polisi a'i allbwn yn 2022 gyda chreu swydd Rheolwr Polisi a recriwtio Swyddog Polisi ac Ymchwil. Bu mwy o bwyslais ar faterion cyhoeddus eleni i godi proffil Gofal a Thrwsio.**

Gwnaed llawer o waith i ddylanwadu ar bolisi llywodraeth, cynrychioli anghenion pobl hŷn a rhannu unrhyw ddiweddariadau polisi allweddol ac arfer da gydag Asiantaethau Gofal a Thrwsio. Roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys:

## Cynnydd Refeniw

Cafodd Gofal a Thrwsio gynnydd refeniw o 6%, gan gefnogi parhau ein gwaith polisi ac eiriolaeth.

## Lansiad yn Senedd Cymru ar gyfer ein Hadroddiad Tai

Lansiwyd ein Hadroddiad Tai Cyflwr Pobl Hŷn yn Senedd Cymru ym mis Ionawr gyda 17 o Aelodau o'r Senedd yn galw heibio, yn cynnwys y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## Gwahoddiad i Roi Tystiolaeth Lafar

Rhoddodd ein Rheolwr Polisi dystiolaeth i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Hawl i Dai Digonol, gan arwain at i nifer o'n newidiadau polisi gael eu cyflwyno fel argymhellion.

## Mynychu Cynadleddau'r Pleidiau

Aethom â'n tîm ar yr heol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mudiad Gofal a Thrwsio a'n hadroddiad, gan arwain at gysylltiadau gwych gydag Aelodau o'r Senedd a chydweithio gyda chyrff eraill yn y trydydd sector.

## Yn 2022-23 fe wnaethom:

- Ymateb i chwe ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, yn cynnwys y Rhaglen Cartrefi Cynnes, Safon Ansawdd Tai Cymru a Rhoi Diwedd ar Gamdriniaeth ac Esgeulustod Pobl Hŷn.
- Ymateb i bedwar ymchwiliad gan y Senedd, yn cynnwys Datgarboneiddio Tai Preifat Cymru a Chyllideb Cymru 2023-24.
- Cael sôn amdanom ddeuddeg o weithiau yn y Senedd, yng nghyswllt Ysbyty i Gartref Iachach ac Adroddiad Cyflwr Tai Pobl Hŷn.
- Cael ein gwahodd i gynrychioli Gofal a Thrwsio mewn 39 rhwydwaith, yn cynnwys Grwpiau Trawsbleidiol, cynghreiriau trydydd sector a Grwpiau Ymgynghori Llywodraeth Cymru.
- Cwrdd gyda gweision sifil 23 gwaith i drafod, ymysg pethau eraill, addasiadau tai, heriau gwasanaeth ac atal.
- Cysylltu gyda 39 Aelod o'r Senedd drwy ein hadroddiad a gwaith codi proffil.

# GWEITHIO GYDAG ASIANTAETHAU

**Yn 2023-24 dysgodd Care & Repair Cymru (CRC) o'r dull 'cadw mewn cysylltiad' a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig ac aeth â'i rwydweithiau grŵp cymheiriaid ar-lein, gyda rhwydweithiau wyneb yn wyneb wedi eu trefnu ar gyfer yr haf yn unig.**

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 5 rhwydwaith wyneb yn wyneb a 17 rhwydwaith ar-lein yn cynnwys 142 o staff rheng-flaen (mewn 315 sesiwn cyfranogiad). Roedd y rhain yn cynnwys rhwydweithiau Gweithwyr Achos, Swyddogion Technegol, Ymdopi'n Well, Ysbyty i Gartref Iachach a Gweinyddwyr. Maent yn rhoi gwybodaeth i CRC o lygad y ffynnon ar ddarpariaeth gwasanaeth, sy'n hanfodol ar gyfer gwaith achos ac ar gyfer cynnal ein gwasanaethau ansawdd uchel ar draws Cymru.

Gan ddefnyddio'r rhwydweithiau hyn, bu modd i ni ddeall y cynnydd mewn costau gwaith yn dilyn y pandemig, y prinder contractwyr a'r lefel ddybryd o amddifadedd cymdeithasol, personol ac amgylcheddol. Fe wnaeth hyn ein galluogi i baratoi dadleuon i gynyddu cyllid i'r Rhaglen Addasiadau Brys a sicrhau cyllid Pwysau Gaeaf i drin rhwystrau i ryddhau o ysbyty a gyda'r hyblygrwydd i drin materion llesiant cymdeithasol, tebyg i gymhennu tai.

Roedd prif themâu y rhwydweithiau yn cynnwys profiadau cleientiaid oedd yn sylfaen ein gwaith marchnata a hyrwyddo polisi, a ddangosir gan adroddiad dylanwadol Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru. Yn nhermau gwella ansawdd gwasanaeth, fe wnaethom adolygu ein teclyn Asesu Cartrefi Iach fel sail ar gyfer canoli datblygiad ein cronfa ddata newydd gyda'r dull hwn yn ganolog iddo. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r rhwydweithiau i hyrwyddo newid i ddefnyddio technoleg ddeallus a symud i wasanaeth carbon-isel, seiliedig ar y cwmwl a di-bapur mwy effeithiol. Roedd sesiynau yn y Rhwydwaith Swyddogion Technegol yn cynnwys arddangos technoleg newydd, oedd yn sylfaen i gais llwyddiannus i Ymddiriedolaeth Wolfson i gyllido gwella capasiti technoleg. Fe wnaethom hefyd drafod gweminar gyda Trade Survey i ddangos sut i ddefnyddio ac integreiddio mesurau laser Leica i asesiad technegol.

Roedd gwesteion yn cynnwys siaradwyr o Age Cymru, Anabledd Cymru, Uned Cyflenwi'r GIG ac Educ8. Cafodd sesiynau hefyd eu mynychu gan ein Haelodau Masnachol i arddangos arloeseddau newydd mewn cynnyrch masnach o'r Keysafe Company (mynediad ar gyfer gofal), SureStop ( i drin dŵr sy'n ymdreiddio i gartrefi) a Triton (ar gyfer opsiynau ymolchi ansawdd uchel).

Mae'r rhwydweithiau hyn yn parhau yn ffactor hollbwysig wrth i ni gydlynu gwasanaethau ansawdd-uchel dan ein brand cyffredin ar draws Cymru.



**Neil Williams,**
Pennaeth Cefnogi a Datblygu Asiantaethau



# EIN PROSIECTAU

## 70+ Cymru

**Daeth prosiect 70+ Cymru i ben ar 31 Mawrth 2023. Rydym yn ddiolchgar i Energy Redress fel y prif gyllidwr, ac i Wales & West Utilities am ein galluogi i ymestyn y prosiect rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023.**

Gyda'n tîm o wyth, fe wnaethom gyrraedd 2,988 aelwyd gyda chyngor a chefnogaeth yn ystod 30 mis y prosiect. Roedd hyn yn cynnwys bron 1,000 o ymweliadau cartref wyneb yn wyneb. Roedd  gwerth y mesurau arbed ynni mawr a osodwyd a'r enillion ariannol i'n cleientiaid yn gyfanswm o £1,126,556. Rhoddodd ein dulliau darpariaeth gwasanaeth gefnogaeth unigryw i bobl hŷn gyda datrysiadau a deilwriwyd yn unigol a sicrhawyd ein heffaith cryf a'n canlyniadau cadarnhaol yn amgylchiadau neilltuol o heriol pandemig a'r argyfwng costau byw.

Datblygodd ein Swyddogion Ynni Cartref gysylltiadau dibynadwy oedd yn galluogi cleientiaid i fod yn agored am y rhwystrau oedd yn eu hwynebu. Datblygodd y tîm sgiliau arbenigol drwy brofiad, rhannu a hyfforddi a gryfhaodd ddeilliannau ac adeiladu gwasanaeth tlodi tanwydd uchel ei barch a chyson. Bu pob Swyddog Ynni Cartref yn gweithio'n ddiflino i herio a lliniaru tlodi tanwydd, gan weithio gyda thrugaredd a phroffesiynoldeb.

Ym mis Ionawr 2023 roedd yn wych dathlu wrth i'n llwyddiannau gael eu cydnabod gan Wobrau Effeithiolrwydd Ynni Cymru fel 'Sefydliad y Flwyddyn Gorau ar gyfer Cefnogi Cwsmeriaid Bregus'.

Gyda thlodi tanwydd yn dal yn her enfawr y mae angen i ni ei drechu yng Nghymru, rydym yn gobeithio y byddwn yn sicrhau mwy o gyllid i helpu dod â'r prosiect yma yn ôl ar newydd wedd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'rn holl Swyddogion Ynni Cartref a'u Hasiantaethau Gofal Thrwsio am eu holl waith caled a'r canlyniadau gwych a sicrhawyd.







**Chris Jones,**
Prif Weithredwr, Care & Repair Cymru



# 70+ CYMRU: CANLYNIADAU LLAWN Y PROSIECT

**2,988**
o aelwydydd wedi cael help

**979**
ymweliad cartref wedi eu cynnal

**328**
gwiriad budd-dal tai wedi eu cwblhau

**378**
mesur mawr wedi eu cyflenwi (e.e. gosod tanciau olew newydd)


**1,021**
mesur bach wedi eu cyflenwi (e.e. atal drafftiau)

**864**
aelwyd wedi eu cofrestru/cyfeirio at y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

**1,386**
aelwyd wedi cael cyngor, hyfforddiant a chymorth

**£1,127,556**
cyfanswm gwerth mesurau mawr a osodwyd a buddion ariannol i'n holl gleientiaid

# EIN PROSIECTAU



## Ysbyty i Gartref Iachach

**Yn dilyn ei gynllun peilot llwyddiannus yn 2019, ehangodd y gwasanaeth i 17 ysbyty ledled Cymru yn cyflogi 17 gweithiwr achos ar draws pum bwrdd iechyd yng Nghymru. Yn 2022-23 derbyniodd y gwasanaeth 5,524 atgyfeiriad, y nifer uchaf ers sefydlu'r gwasanaeth, ac arbed dros 25,500 o ddyddiau gwely i GIG Cymru. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys nifer y bobl y gwnaethom eu hatal rhag gorfod cael eu haildderbyn i ysbyty, y costau ambiwlans a gafodd eu hosgoi, yr amser staff clinigol y gwnaethom ei arbed a'r pecynnau gofal y gwnaethom eu galluogi, y teuluoedd y gwnaethom gydlynu gyda nhw neu'r cymorth hirdymor a ddarparwn i gleientiaid yn eu cartrefi.**

Er fod hyn yn llwyddiant sylweddol ac yn dangos pa mor hanfodol yw'r gwasanaeth i staff GIG ar draws Cymru (a ddangoswyd yn ein hadroddiad Ysbyty i Gartref Iachach – gweler tudalen 11), mae hyn hefyd yn golygu fod ein gwasanaeth ei hun yn wynebu pwysau, gyda llwythi gwaith uchel ar gyfer rhai gwneuthurwyr achos.

Bu'r ffocws eleni ar sefydlu Ysbyty i Gartref Iachach i agweddau strategol ar draws byrddau iechyd. Mae'r gwasanaeth yn gydnaws gyda'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng a Rhyddhau i Adfer yna Asesu. Oherwydd hyn, buom yn cymryd rhan yng Ngrŵp Gweithredu Nod 6 (Home First). Rydym hefyd wedi cyflwyno'r gwasanaeth i uwch swyddogion GIG Cymru a'r Llywodraeth drwy Gymuned Ymarfer Home First a Grŵp Gweithredu Nod 6, gan arwain at gyfleoedd i roi tystiolaeth ar gyfer canllawiau cenedlaethol ar ryddhau o ysbytai a modiwlau Asesydd Dibynadwy.

Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn parhau i fod â rhan hanfodol wrth sicrhau y caiff pobl hŷn eu rhyddhau mewn modd diogel ac amserol yn ôl i gartrefi a addaswyd i weddu eu hanghenion ac adferiad parhaus.



**Faye Patton,**
Rheolwr Polisi a Phrosiect






# YSBYTY I GARTREF IACHACH YN 2022-23



**17**
gweithiwr achos Ysbyty i Gartref Iachach



**17**
ysbyty




**2,777**
gwiriad Cartrefi Iach ar gartrefi cleifion



**423**
hawliad llwyddiannus am fudd-daliadau



**£1.7m**
o fudd-daliadau wedi eu hawlio ar gyfer cleifion



**7,720**
o welliannau cartref wedi eu cwblhau ar gyfer cleifion



**5,524**
o gleifion wedi cael help



**25,968**
o ddyddiau gwely wedi eu harbed



**96%**
yn dweud fod y gwasanaeth wedi eu helpu i ddychwelyd adref a byw'n annibynnol

# EIN PROSIECTAU



## Ymdopi'n Well

**Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 fe wnaeth y gwasanaeth Ymdopi'n Well helpu 2,757 o bobl hŷn. Mae 2,150 ohonynt â cholled neu glyw, 376 yn byw gyda dementia a 204 wedi goroesi strôc.**


Cafodd pob cleient y gwnaethom ymweld â nhw gynnig asesiad o'u hawl i fudd-daliadau ac yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gefnogi 645 o'n cleientiaid i dderbyn gwell incwm gyda gwerth blynyddol o £2,081,096.

Un o gryfderau'r gwasanaeth Ymdopi'n Well yw fod pump elusen fawr yng Nghymru wedi dod ynghyd a chyfuno eu cryfderau unigryw: RNIB, RNID, Cymdeithas Alzheimer a'r Gymdeithas Strôc. Mae ein gwasanaeth a gynhyrchwyd ar y cyd wedi galluogi gweithwyr achos Ymdopi'n Well i gael dealltwriaeth wych o'r gefnogaeth ychwanegol y gall ein partneriaid ei gynnig.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r RNID ac mae gennym gysylltiadau sydd wedi sefydlu'n dda gyda'u gwasanaeth Byw'n Dda. Mae'r cydweithio hwn wedi ein galluogi i ddatblygu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd o golli clyw ac yn y flwyddyn ddiwethaf gwelsom gynnydd y llynedd yn nifer yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a osododd systemau cylch clywed ar gyfer cleientiaid, i helpu llacio pwysau ar wasanaethau statudol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Brydeinig y Byddar (BDA) i sicrhau fod ein gwasanaeth yn hygyrch i bobl Fyddar ar draws Cymru sydd ag Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf iddynt.

Fel canlyniad i'r pandemig mae gwasanaethau statudol yn dal i ddelio gydag ôl-groniad mawr o waith, gan olygu y bu mwy o alw nag erioed ar Ymdopi'n Well. Er hyn, mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru wedi dangos proffesiynoldeb rhagorol mewn darparu gwasanaeth Ymdopi'n Well.



Sganiwch y cod QR
**Edrychwch ar ein fideos newydd Ymdopi'n Well:**



**Stephen Thomas,**
Cydlynydd Cenedlaethol, Ymdopi'n Well



# YMDOPI'N WELL YN 2022-23

**2,757**
o bobl wedi eu helpu

**2,471**
gwiriad Cartrefi Iach ar gartrefi cleientiaid

**2,150**
cleient gyda cholled synhwyraidd

**580**
cleient wedi goroesi strôc neu'n byw gyda dementia

**£1.2m**
o waith wedi'i gwblhau

**£58,734**
o gyllid dyngarol wedi'i gyrchu ar gyfer cleientiaid

**£2.1m**
o fudd-daliadau wedi eu sicrhau ar gyfer cleientiaid

**1,196**
cleient wedi cael gosod technoleg

**3,480**
atgyfeiriad i asiantaethau eraill.

# EIN TÎM STAFF



**Chris Jones,**
Prif Weithredwr



**Claire Clarke,**
Cyfrifydd Ariannol



**Louise Parry,**
Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol



**Neil Williams,**
Pennaeth Cefnogi a Datblygu Asiantaethau



**Kennedy Dosomah,**
Swyddog Cefnogi a Datblygu Asiantaethau



**Stephen Thomas,**
Cydlynydd Cenedlaethol, Ymdopi'n Well



**Faye Patton,**
Rheolwr Polisi a Phrosiectau



**Jack Bentley,**
Swyddog Marchnata a Datblygu Busnes



**Aleks Chamczynska,**
Swyddog Gweinyddol



**Becky Ricketts,**
Swyddog Polisi ac Ymchwil *(ymunodd Gorffennaf 2022)*



**Adrian Lister,**
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol *(ymunodd Awst 2022)*



**Robert Green,**
Rheolwr Prosiect Cronfa Ddata *(ymunodd Ionawr 2023)*



**Elaine Bates,**
Cydlynydd Digwyddiadau Allanol *(gadawodd Mehefin 2023)*



**Jo Harry,**
Rheolwr Prosiect, 70+ Cymru *(gadawodd Ebrill 2023)*



**Charlotte Powell,**
Swyddog Datblygu Busnes *(gadawodd Hydref 2022)*



**Heather Dungey,**
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol *(gadawodd Mai 2022)*

# GWERTHOEDD EIN TÎM

**Mae pwy ydym a sut  ydym yn ymddwyn mor bwysig â'r hyn a wnawn. Fel tîm, credwn y bydd y gwerthoedd a'r mathau dilynol o ymddygiad yn gyrru ein diwylliant a'n heffaith fel tîm, ein helpu i fod y gorau y gallwn fod a sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfer ein buddiolwyr.**

## Cynhwysol

Mae cydraddoldeb yn bwysig i ni fel tîm. Rydym yn adnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth pobl, eu gwahaniaethau a'u cryfderau mewn ffordd gyfartal.

## Angerddol

Mae ein holl gwsmeriaid, ansawdd ein gwasanaethau, ein henw da, a'n gilydd yn bwysig i ni. Rydym yn caru'r hyn a wnawn ac yn ymroddedig i wneud gwahaniaeth. Cymerwn gyfrifoldeb am ein gweithredoedd.

## Cefnogol

Rydym yn credu mewn gwrando, helpu ac annog ein gilydd. Rydym yn parchu pob syniad a barn. Rydym yn onest, agored, tryloyw ac yn ymddiried yn ein gilydd. Darparwn gyfleoedd i bobl i ddatblygu a ffynnu. Rhoddwn ryddid i wneud y gwaith a gwyddom fod camgymeriadau yn rhan o ddysgu a gwella.

## Creadigol

Rydym yn arloesi, yn ystwyth, yn ymateb yn gadarnhaol i newid a chyfle ac yn ffynnu mewn amgylchedd gweithio hyblyg sy'n annog creadigrwydd. Gwnawn ymdrech i gyflawni ein breuddwydion.

## Dathlu a Chael Hwyl

Rydym yn credu mewn amgylchedd gwaith hamddenol gyda rhyddid a hyblygrwydd sy'n creu egni cadarnhaol, mwynhad ac yn ein helpu i ateb yr heriau a wynebwn fel tîm. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau.



# EIN BWRDD YMDDIRIEDOLWYR

| | |
|---|---|
| **Sarah Willey** | Cadeirydd |
| **Maggie Berry** | Is-gadeirydd |
| **Rhodri Davies** | Trysorydd |
| **David Tovey** | Cynrychiolydd Asiantaeth |
| **Gwynne Jones** | Cynrychiolydd Asiantaeth |
| **Elizabeth Warwick** | |
| **Clare Strowbridge** | |
| **Andrew Vye** | |
| **Sally Davies** | |
| **Rhodri Owen** | |
| **Fay Satherley** | |
| **Emily Warren** | |
| **Glenn Bowen** | Cyfetholwyd |

## Arsylwyr:

| | |
|---|---|
| **Jim McKirdle** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Sharon Mainwaring** | Is-lywydd Anrhydeddus |


Sganiwch y cod QR

**Darllenwch fwy am yr hyn a wnaiff ein Ymddiriedolwyr a chyfleoedd i ymuno â'n Bwrdd:**

# ADOLYGIAD ARIANNOL 2022-23


## Cyfanswm Incwm: £2,240,607

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru: | 53.9% |
| Byrddau Iechyd Lleol: | 21.7% |
| Cyllid Prosiect: | 14.7% |
| Cronfeydd Caledi: | 5.9% |
| Cyfraniadau a Rhoddion: | 1.4% |
| Hyfforddiant a Chynadleddau: | >1% |
| Incwm Buddsoddiadau: | >1% |
| Arall: | 1.3% |



## Cyfanswm Gwariant: £2,162,502


| | |
|---|---|
| Costau Uniongyrchol: | 68.9% |
| Costau Staff: | 23.4% |
| Costau Swyddfa: | 2.9% |
| Llywodraethiant: | 2.3% |
| Costau Cefnogi: | 1.7% |
| Hyfforddiant a Recriwtio: | >1% |
| Dibrisiant: | >1% |



## Cronfeydd Caledi

### Cyfanswm incwm a gwariant Cronfeydd Caledi: £131,387

| | |
|---|---|
| Cronfa Pwysau y Gaeaf: | 48% |
| 70+ Cymru: | 23% |
| Cartrefi Diogel a Chynnes: | 11% |
| Cronfa Diogelwch Nwy: | 9% |
| Gwasanaeth Cymhennu Ysbyty i Gartref Iachach: | 6% |
| Prosiect 360 – Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog: | 1% |
| Cartefi Iach ar gyfer Pobl Hŷn: | >1% |





# DIOLCHIADAU

Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i bob un o'n partneriaid, cyllidwyr ac aelodau masnachol. Rydych wedi ein galluogi i gefnogi mwy o bobl hŷn yng Nghymru ac eirioli ar ran pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi mewn cyflwr gwael.

## Partneriaid a Chyllidwyr

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Nyth Nest
energy saving trust
GAS safe REGISTER
WALES&WEST UTILITIES
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
WCVA CGGC

## Elusennau Partner

Strôc | Stroke
RNIB Cymru Golwg gwahanol See differently
RN I:D
Alzheimer's Society Cymru
age Cymru
age connects wales.

## Aelodau Masnachol

Educ8
altro
AKW Life Made Better
keysafe
SOLON SECURITY
surestop
closomat

Care & Repair Cymru

**www.careandrepair.org.uk**

enquiries@careandrepair.org.uk

**029 2010 7580**

Care & Repair Cymru is a registered charity **(No. 1163542)**
and a company limited by guarantee **(No. 09574555)**.